# Asesiad o'r Effaith Gronnol ar Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr - adroddiad Heddlu De Cymru.

Mae Heddlu De Cymru wedi adolygu lefelau trosedd a digwyddiadau ar y strydoedd canlynol sy'n ffurfio rhan o'r ardal effaith gronnol o fewn Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

- Stryd y Farchnad
- Heol y Dderwen
- Stryd Wyndham
- Stryd Nolton

Roedd y cyfnod adolygu'n cynnwys cyfnod 12 mis cyn y cyfnod clo covid a chyfnod o chwe mis ar ôl y cyfnod clo.

**Y cyfnodau data yw:**

1 Chwefror 19 – Gorffennaf 19 – Cyn Covid

2 Awst 19 - Ionawr 20 – Cyn Covid

3 Chwefror 21 – Gorffennaf 22 – Cyn Covid

Ac yn bwriadu nodi'r galw am safleoedd trwyddedig o fewn yr ardal effaith gronnol.

Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr economi nos rhwng 18.00 - 05.59 a'r galw ar yr heddlu yn ystod yr oriau hyn.

## Economi Nos - Troseddau wedi'u Cofnodi (1800 i 0559 hrs)

Yn ystod yr economi nos, profwyd cynnydd gwerth 34.7% (o 98 i 132) mewn troseddau rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 ac Awst 19 – Ionawr 20. Fodd bynnag, roedd gostyngiad gwerth 33.7% yn yr achosion rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 a Chwefror - Gorffennaf 22 - yn cwympo o 98 i 65 o achosion.

Ar Stryd y Farchnad, bu cynnydd gwerth 53.3% [24] yn y troseddau rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 ac Awst 19 - Ionawr 20, fodd bynnag, bu gostyngiad gwerth 31.1% [14] rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 a Chwefror - Gorffennaf 22.

## Economi Nos - Yr holl Ddigwyddiadau (Trosedd a Digwyddiadau nad ydynt yn Droseddol, rhwng 1800 a 0559 o'r gloch)

Yn ystod yr economi nos, profwyd cynnydd cyffredinol mewn digwyddiadau gwerth 17.9% (o 196 i 231 o achosion) rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 ac Awst 19 – Ionawr 20.

Rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 a Chwefror - Gorffennaf 22, bu gostyngiad gwerth 34.7% (o 196 i 128) mewn digwyddiadau cyffredinol.

Profwyd Stryd y Farchnad cynnydd gwerth 13.8%, sef 13 o ddigwyddiadau, mewn digwyddiadau yn yr economi nos rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 ac Awst 19 - Ionawr 20. Fodd bynnag, rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 a Chwefror - Gorffennaf 22, bu gostyngiad gwerth 36.2% mewn digwyddiadau (34 digwyddiad).

| Trosolwg 6 Mis - Yr Holl Droseddau a Digwyddiadau (Economi Nos 1800 i 0559 o'r gloch) | | | |
|---|---|---|---|
| **Troseddau a Digwyddiadau** | **Chwefror 19 i Gorffennaf 19** | **Awst 19 i Ionawr 20** | **Chwefror 22 i Gorffennaf 22** |
| HEOL Y DDERWEN | 44 | 34 | 11 |
| STRYD Y FARCHNAD | 94 | 107 | 60 |
| STRYD NOLTON | 19 | 26 | 17 |
| STRYD WYNDHAM | 39 | 64 | 40 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **196** | **231** | **128** |

## Economi Nos - Troseddau wedi'u Cofnodi (1800 i 0559 hrs)

Yn ystod yr economi nos, profwyd cynnydd gwerth 34.7% (o 98 i 132) mewn troseddau rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 ac Awst 19 – Ionawr 20. Fodd bynnag, roedd gostyngiad gwerth 33.7% yn yr achosion rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 a Chwefror - Gorffennaf 22 - yn cwympo o 98 i 65 o achosion.

Ar Stryd y Farchnad, bu cynnydd gwerth 53.3% [24] yn y troseddau rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 ac Awst 19 - Ionawr 20, fodd bynnag, bu gostyngiad gwerth 31.1% [14] rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 a Chwefror - Gorffennaf 22.

| Trosolwg 6 Mis - Troseddau a Gofnodwyd (Economi Nos 1800 i 0559 o'r gloch) | | | |
|---|---|---|---|
| **Troseddau a Digwyddiadau** | **Chwefror 19 i Gorffennaf 19** | **Awst 19 i Ionawr 20** | **Chwefror 22 i Gorffennaf 22** |
| HEOL Y DDERWEN | 29 | 16 | 5 |
| STRYD Y FARCHNAD | 45 | 69 | 31 |
| STRYD NOLTON | 6 | 13 | 7 |
| STRYD WYNDHAM | 18 | 34 | 22 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **98** | **132** | **65** |

## Economi Nos - Troseddau wedi'u Cofnodi (1800 i 0559 o'r gloch) – Stryd y Farchnad

Roedd troseddau Trais yn Erbyn y Person yn cyfrif am y nifer uchaf o droseddau ar Stryd y Farchnad, yn ogystal â'r cynnydd mwyaf mewn digwyddiadau rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 ac Awst 19 - Ionawr 20 (+10).

Bu'r gostyngiad mwyaf mewn troseddau'n ymwneud â chyffuriau ar Stryd y Farchnad rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 a Chwefror - Gorffennaf 22 gyda -13.

| Trosolwg 6 Mis - Troseddau a Gofnodwyd (Economi Nos 1800 i 0559 o'r gloch) STRYD Y FARCHNAD |
|---|

| Troseddau a Gofnodwyd | Chwefror 19 i Gorffennaf 19 | Awst 19 i Ionawr 20 | Chwefror 22 i Gorffennaf 22 |
|---|---|---|---|
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Niwsans | 3 | 7 | 3 |
| Cyffuriau | 18 | 21 | 5 |
| Trais yn erbyn y Person | 21 | 31 | 17 |
| Troseddau Rhywiol | 0 | 1 | 0 |
| Byrgleriaeth | 0 | 0 | 1 |
| Dwyn a Chamdrin | 0 | 3 | 2 |
| Difrod | 2 | 4 | 0 |
| Amrywiol | 1 | 1 | 1 |
| Digwyddiad Domestig | 0 | 0 | 1 |
| Trosedd sy'n Ymwneud â Ffyrdd | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **45** | **69** | **31** |

Mae'r drosedd nad yw'n hysbysadwy o fod yn Feddw ac Afreolus wedi dilyn y duedd gyffredinol, gan gynyddu o 4 digwyddiad yn Chwefror - Gorffennaf 19 i 7 rhwng Awst 19-Ionawr 20, ond yn gostwng i 3 digwyddiad rhwng Chwefror - 22 Gorffennaf.

| Trosolwg 6 Mis - Troseddau nad ydynt yn Hysbysadwy (Economi Nos 1800 i 0559 o'r gloch) STRYD Y FARCHNAD | | | |
|---|---|---|---|
| | Chwefror 19 i Gorffennaf 19 | Awst 19 i Ionawr 20 | Chwefror 22 i Gorffennaf 22 |
| Meddw ac Afreolus | 4 | 7 | 3 |

## Economi Nos - Digwyddiadau fesul Safle (1800 i 0559 o'r gloch) – Stryd y Farchnad

Profwyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau a gyflawnwyd mewn safle trwyddedig rhwng Awst 19 ac Ionawr 20, gyda 62 o ddigwyddiadau.

Cafodd y nifer lleiaf o ddigwyddiadau eu cyflawni yn y cyfnod rhwng Chwefror a Gorffennaf 22, gyda 37 o ddigwyddiadau. Fodd bynnag, yn y cyfnod hwn hefyd gwelwyd y ganran uchaf o ddigwyddiadau a gyflawnwyd mewn safleoedd trwyddedig o gymharu â chyfanswm y digwyddiadau a gyflawnwyd drwy gydol y cyfnod hwnnw, sef 61.7%.

Cafodd y nifer fwyaf o ddigwyddiadau eu cofnodi yn Adeilad A, a welodd 79 o ddigwyddiadau ar draws y tri chyfnod amser.

| Trosolwg 6 Mis - Yr holl Ddigwyddiadau - Safleoedd - (Economi Nos 1800 i 0559 o'r gloch) | | | |
|---|---|---|---|
| STRYD Y FARCHNAD | | | |
| | Chwefror 19 i Gorffennaf 19 | Awst 19 i Ionawr 20 | Chwefror 22 i Gorffennaf 22 |
| Safle A | 27 | 35 | 17 |
| Safle B | 1 | 0 | 0 |
| Safle C | 19 | 25 | 14 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Safle D | 0 | 2 | 5 |
| Safle E | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm mewn Safleoedd Trwyddedig** | **47** | **62** | **37** |
| **Cyfanswm yr holl Ddigwyddiadau** | **94** | **107** | **60** |
| **% Safleoedd Trwyddedig** | **50.0%** | **57.9%** | **61.7%** |

## Prif Ganfyddiadau

Bu cynnydd gwerth 10.5% yn y nifer o ddigwyddiadau ar Stryd y Farchnad rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 ac Awst 19 - Ionawr 20.

Roedd yn dangos gostyngiad gwerth 31.5% rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 a Chwefror - 22 Gorffennaf.

Roedd cyfradd y cynnydd mewn troseddau ar Stryd y Farchnad yn uwch yn ystod yr Economi Nos rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 ac Awst 19 - Ionawr 20, gan gynyddu 53.3%.

Rhwng Chwefror - Gorffennaf 19 a Chwefror - Gorffennaf 22, bu gostyngiad gwerth 31.1% mewn digwyddiadau troseddol yn ystod yr Economi Nos.

Gwelodd safleoedd trwyddedig lai o ddigwyddiadau rhwng Chwefror 22 a Gorffennaf 22 [37] nag yn Chwefror 19 - Gorffennaf 19 [47] ac Awst 19 - Ionawr 20 [62].

Gwelodd safleoedd trwyddedig lai o ddigwyddiadau rhwng Chwefror 22 a Gorffennaf 22 [37] nag yn Chwefror 19 - Gorffennaf 19 [47] ac Awst 19 - Ionawr 20 [62].

- Adeilad A oedd y safle trwyddedig gyda'r nifer uchaf o ddigwyddiadau.

Dyddiau/amseroedd prysur am droseddau ar Stryd y Farchnad [Chwefror 22-Gorffennaf 22]

- Sadwrn/Sul 00:00am-04:00am, ac yn brysuraf am 01:00am.

Rydym wedi gweld cynnydd gwerth 34% yn y galw ac adrodd am droseddau ar draws pob categori o alw/trosedd Economi Nos, sy'n cael ei fanylu yn yr adroddiad cyn COVID.

Mae ffigyrau ar ôl COVID yn is ar y cyfan, sydd i'w ddisgwyl wrth i'r cyfnod clo ddod i ben.

Mae pob tebygolrwydd y bydd y cynnydd etifeddol hwn yn ailddechrau, ac oherwydd hynny, bydd yr Heddlu yn cefnogi parhau â'r Ardal Effaith Gronnol er mwyn sicrhau bod ymddygiad troseddol ac ymddygiad afreolus yn cael ei leihau yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Yr Arolygydd Mike Rudall
3418
Dyddiedig 20 Medi 2022